

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Camarfer a Chamweinyddu

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r broses rheoli ansawdd sy'n sicrhau bod unrhyw achosion honedig neu bosibl o gamarfer neu gamweinyddu yn cael eu harchwilio'n drylwyr ac yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r 'Amodau Cydnabod Cyffredinol'.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff a bob myfyriwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo dull neu leoliad yr astudiaeth.

Diffiniadau

Mae '**Camarfer**', sy'n cynnwys camweinyddu a diffyg cydymffurfio, yn golygu unrhyw weithgaredd neu arfer sy'n mynd yn groes i reoliadau'n fwriadol ac yn peryglu uniondeb y broses asesu fewnol neu allanol a/neu ddilysrwydd tystysgrifau. Mae'n ymwneud ag unrhyw weithredoedd, esgeulustra, diffygion neu arferion bwriadol eraill sy'n peryglu, neu a allai beryglu:

- Y broses asesu
- Uniondeb cymhwyster rheoledig
- Dilysrwydd canlyniad neu dystysgrif
- Enw da a chredadwyaeth y Coleg

Gall camarfer gynnwys ystod o faterion, o fethu â chynnal cofnodion neu systemau priodol, i ffugio cofnodion yn fwriadol er mwyn hawlio tystysgrifau. Mae camarfer gan ddysgwr yn cynnwys llên-ladrad o waith cyhoeddedig, gwaith sydd heb ei gyhoeddi, neu unrhyw waith a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial (AI). Mae hefyd yn cynnwys unrhyw weithgaredd neu arfer sy'n arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion gweinyddol, yn ogystal â gwneud camgymeriadau parhaus neu waith gweinyddol gwael.

Mae **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** yn cyfeirio at allu cyfrifiadur digidol neu robot a reolir gan gyfrifiadur i gyflawni tasgau sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â bodau deallus, ac sy'n gallu cael ei ddefnyddio er mwyn datrys problemau. Mae technoleg AI ar gael i bawb, a gellir ei gyrchu'n rhwydd iawn drwy amrywiaeth o adnoddau rhad neu ddi-dâl, a gellir ei defnyddio i ysgrifennu cynnwys yn seiliedig ar ddefnyddiwr yn mewnbynnu gwybodaeth a/neu gwestiynau sylfaenol. Mae angen i bolisiâu a gweithdrefnau gydnabod y gall defnyddio AI gynhyrchu gwaith yn seiliedig ar fewnbynnau'r defnyddiwr, ac ni fydd yn defnyddio gwaith o ffynhonnell arall sy'n bodoli ar-lein. Felly mae hi'n anodd adnabod y math yma o llên-ladrad drwy ddefnyddio gwiriwr llên-ladrata confensiynol. Mae angen i'r Coleg gydnabod a gweithredu ar y wybodaeth hon wrth weithio i fynd i'r afael â charmarfer a llên-ladrad.

Mae '**Camweinyddu**' yn cael ei ddiffinio fel unrhyw weithgaredd, arfer neu hepgoriad sy'n arwain at ganolfan neu ddysgwr yn methu â chydymffurfio â rheoliadau a gofynion

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

gweinyddol. Er enghraifft, camgymeriadau parhaus neu weinyddiaeth wael sy'n arwain at ganolfan yn methu â chadw cofnodion priodol ar gyfer asesiadau dysgwr.

Datganiadau'r Polisi

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n cael mynediad at Goleg Caerdydd a'r Fro fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.
- Mae'n rhaid cefnogi ein dysgwyr i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn y Coleg, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad. Mae llesiant ein dysgwyr yn ganolog er mwyn iddynt deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain a pharchu eraill.
- Yn y Coleg, bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.
- Ymrwymiad i **ddulliau adferol** i sicrhau ein bod ni'n meithrin cysylltiadau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.
- Ymrwymiad i **fodel cymdeithasol anabledd** lle'r ydym yn edrych ar gael gwared ar y rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd ei anabledd neu anhawster dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddatblygu gweithdrefnau sy'n helpu i adnabod a rheoli camarfer a chamweinyddu yn unol â gweithdrefnau cyrff dyfarnu. Bydd y gwaith hwn yn ystyried yr heriau yr ydym yn eu hwynebu o ganlyniad i'r defnydd o AI.
- Sicrhau bod unrhyw achos o gamarfer posib neu a honnir yn cael ei rannu â rheoleiddwyr a sefydliadau dyfarnu yn unol ag 'Amodau Cydnabod Cyffredinol'.
- Sicrhau bod y Coleg yn cydweithredu ag unrhyw reoleiddiwr neu gorff dyfarnu fel rhan o ymchwiliad i gamarfer posib neu honedig.
- Sicrhau bod unrhyw staff a dysgwyr yn cael gwybod am y polisi camarfer a'r gweithdrefnau cysylltiedig gan gynnwys y canlyniadau posibl, pe bai camarfer yn cael ei brofi.
- Sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i adnabod camarfer a llên-ladrad.
- Sicrhau bod dysgwyr yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth i'w galluogi i gynhyrchu gwaith sy'n osgoi camarfer a llên-ladrad, er enghraifft, drwy beidio gwneud â defnydd anaddas o AI ac adnoddau eraill.
- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu a bod systemau'n cael eu datblygu i leihau unrhyw risg o gamweinyddu a camarfer.
- Sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw a bod achosion yn cael eu monitro, a

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Polisi a gweithdrefnau Camarfer y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r maes hwn.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n achos pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial etc yn cefnogi egwyddorion y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn gyfrifol am:

- Gadw'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo er mwyn bodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau y darperir hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth na drwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus ynghylch agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Dilyn gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, gan ddefnyddio cefnogaeth, hyfforddiant ac adnoddau yn benodol i sicrhau nad ydynt mewn risg o gamarfer.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Cydraddoldeb 2010

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Canllawiau asesu amrywiol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Cyfeiriadau

Polisiau Cysylltiedig

Polisi Ansawdd

Cwynion a Chanmoliaeth

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Llên-ladrad

Chwythu'r Chwiban

Bwlio ac Aflonyddu

Diogelu Data

Gweithdrefnau Cysylltiedig

Camarfer a Chamweinyddu

Cwynion

Sicrhau Ansawdd yn Fewnol

Chwythu'r Chwiban

Bwlio ac Aflonyddu

Diogelu

Diogelu Data

Yn ystod Covid, mae nifer o weithdrefnau camarfer wedi cael eu haddasu i gydymffurfio â'r broses Graddau a Bennir gan Ganolfan/Graddau a Asesir gan Athrawon. Mae'r rhain yn weithdrefnau cysylltiedig ond maent yn digwydd o fewn terfyn amser y sefydliad dyfarnu penodol a'r cyfnod asesu.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo: 15/04/16

Cymeradwywyd gan: CQSA

Dyddiad adolygu: 1 Gorffennaf 2025

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol,
Ansawdd, Addysgu a Dysgu

Arweinydd Gweithredol: Is-bennaeth, Taith y
Dysgwyr ac Ansawdd

Hygyrch i Fyfrwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25